

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (TIR CYFAGOS I 33 BRYN ROAD, TON-DU, PEN-Y- BONT AR OGWR) 2023

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") i awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r briffordd, ac nid awdurdodir ei chau ond er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 15 Tachwedd 2022 o dan y cyfeirnod P/22/690/FUL a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir cyfagos i 33 Bryn Road, Ton-du, Pen-y-bont ar Ogwr) 2023 ("y Gorchymyn"), yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.


Gellir edrych ar gopiâu o'r Gorchymyn a'r plan a adnewwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau agor arferol yng Nghyngor Cymuned Ynysawdre, Neuadd y Plwyf, Bryn Road, Ton-du, CF32 9EB neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1727355.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

- a. nad yw o fewn pwerau Deddf 1990; neu
 - b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol Deddf 1990;
- o fewn 6 wythnos i 20 Gorffennaf 2023, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwnnw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchmyinion-cau) ar <https://llyw.cymru/gorchmyinion-cau>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.


J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (LAND ADJACENT TO 33 BRYN ROAD, TONDU, BRIDGEND) ORDER 2023

The Welsh Ministers have made an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the 1990 Act") to authorise the stopping up of the length of highway described Schedule 1 to this Notice. The Welsh Ministers are satisfied that stopping up is necessary, and it will be authorised only in order to enable the development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by County Borough Council of Bridgend on 15 November 2022 with reference P/22/690/FUL described in Schedule 2 to this Notice.

The Stopping Up of Highways (Land adjacent to 33 Bryn Road, Tondy, Bridgend) Order 2023 ("the Order") ceases to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

Copies of the Order and the deposited plan may be inspected free of charge during normal opening hours at Ynysawdre Community Council, Parish hall, Bryn Road, Tondy, CF32 9EB or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA1727355.


If a person is aggrieved by the Order, on the grounds that:

- a. it is not within the powers of the 1990 Act; or
- b. a procedural requirement of the 1990 Act has not been complied with;

that person may, within 6 weeks of 20 July 2023 make an application for the purpose to the High Court.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/stopping-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.


J SADDLER
Transport
Welsh Government

ATODLEN 1
(Bras amcan yw pob mesuriad)

Y darn o briffordd sydd i'w gau

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd ar ymyl gorllewinol yr eiddo o'r enw 33 Bryn Road, Ton-du, Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n 15 metr yn y man hiraf ac yn 1.3 metr yn y man lletaf, a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adnewwyd.

ATODLEN 2

Y Datblygiad

Cynnwys tir yn y cwrtil; ffens ar yr ochr a phileri bric yn y tu blaen ar dir cyfagos i 33 Bryn Road, Ton-du, Pen-y-bont ar Ogwr CF32 9EF.

SCHEDULE 1
(All measurements are approximate)

Length of highway to be stopped up

An irregular shaped length of highway located on the western edge of the property known as 33 Bryn Road, Tondu, Bridgend, with a maximum length of 15 metres and a maximum width of 1.3 metres shown by zebra hatching on the deposited plan.

SCHEDULE 2

The Development

Inclusion of land into the curtilage; fence to side and brick piers to front at Land adjacent to 33 Bryn Road, Tondu, Bridgend CF32 9EF.